

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 21 Medi 2021

Presennol: Y Cyngorydd Peter Rogers (Cadeirydd), Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg)(Is-gadeirydd), Y Cyngorwyr, John Griffith, G.O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts.

Wrth Law: Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitemau 3, 4 a 5), Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP), Prif Archwilydd (NW), Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 8), Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitem 9), Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 10), Swyddog Pwyllgor (ATH)

Ymddiheuriadau: Y Cyngorydd Margaret Roberts, Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr), Mr Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc), Mr Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)

Hefyd yn Bresennol: Y Cyngorwyr Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Alwen Williams (NWEAB), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio – Archwilio Perfformiad, Archwilio Cymru), Bethan Roberts (Archwilio Cymru), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

(2:00 yp tan 3:50 yp)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Llywodraethu Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG) 2020/21 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn datganiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth • Nodi nad ydi'r archwiliad o gydsyniad y trefnwyd i'w gynnal ers tro yn y Gwasanaeth Dysgu wedi'i gwblhau o hyd • Bod y Pwyllgor y cefnogi bod y Gwasanaeth Dysgu yn cefnogi'r Cyngor i ddatblygu ei Gofnod o Weithgareddau Prosesu o dan Erthygl 30 y GDPR

	<ul style="list-style-type: none"> Bod y Gwasanaeth Dysgu yn adrodd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf fan bellaf i gadarnhau ei drefniadau ar gyfer cwblhau'r gwaith sydd heb ei gwblhau fel y disgrifir uchod h.y. yr archwiliad o gydsyniad a'r Cofnod o Weithgareddau Prosesau Bod adroddiadau'r SIRO i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol yn adrodd ar sicrwydd a dderbynnir gan Benaethiaid Gwasanaeth fel Perchnogion Asedau Gwybodaeth.
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Adroddiad Blynyddol: Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2020/21 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn bod yr adroddiad yn darparu sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn delio â chwynion yn effeithiol.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Adroddiad Blynyddol Derbyn Polisiâu 2020/21 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r sefyllfa gyfredol o ran derbyn polisiâu corfforaethol ar draws y Cyngor.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Archwilio Allanol: Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol - Cyngor Sir Ynys Môn Adroddiad gan yr Archwilwyr Allanol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar gynaliadwyedd ariannol Cyngor Sir Ynys Môn a nodi cynnwys yr adroddiad.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Archwilio Allanol: Adolygiad Cynnydd Bargaen Twf Gogledd Cymru - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Adroddiad gan yr Archwilwyr Allanol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar ei adolygiad cynnydd o Fargaen Twf Gogledd Cymru a nodi cynnwys yr adroddiad.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Archwilio Allanol: Cyngor Sir Ynys Môn - Cynllunio'r Gweithlu Adroddiad gan yr Archwilwyr Allanol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn adroddiad yr Archwilwyr Allanol mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu yng Nghyngor Sir Ynys Môn a nodi cynnwys yr adroddiad.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Archwilio Allanol: Adroddiadau ac Argymhellion Archwilio Cymru - Llythyr at y Cadeirydd Adroddiad gan yr Archwilwyr Allanol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r llythyr i'r Cadeirydd gan Archwilio Cymru ac ymateb y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, a nodi hefyd y bydd y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf yn derbyn diweddariad ar hynt yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiadau adolygu cenedlaethol Archwilio Cymru.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 Diweddariad Archwilio Mewnol Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 Materion a Risgiau Sy'n Parhau i fod Angen Sylw Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> Nodi cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' Archwilio Mewnol sy'n parhau i fod angen sylw. Cadarnhau bod lefel y manylder sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yn cwrdd ag anghenion sicrwydd y Pwyllgor yn y maes hwn.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 Blaen Raglen Waith Wedi'i Diweddarau Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a
------------------------	--

	Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r mân ddiwygiadau i'r Flaenraglen Waith gymeradwy ar gyfer 2021/22.